# PAPURAU BUSNES

# 4 Ebrill 2000

# Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 28 Mawrth 2000

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 9.9, yn nodi adroddiad interim "Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd" y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2000 ac a ddosbarthwyd ar ffurf copi papur i Aelodau.

**NDM255**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad:-

1. yn nodi menter y Prif Ysgrifennydd i adolygu costau ac opsiynau adeilad newydd y Cynulliad;
2. yn nodi y gallai'r adolygiad beri i'r amserlen a gytunwyd newid;
3. yn pwyso am gynnal yr adolygiad cyn gynted ag y bo modd;
4. yn mynnu bod canfyddiadau'r adolygiad, a chynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, yn dod yn ôl at y Cynulliad er mwyn iddo wneud penderfyniad, ac y dylai'r wybodaeth allweddol sy'n sail iddynt fod ar gael.

**NDM256**

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 29 Mawrth 2000

**NDM256**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau a ganlyn i'r cynnig uchod:

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Dileu pwynt 3 a'i ddisodli gan bwynt 3 newydd "yn penderfynu y gellir cwblhau'r adolygiad o fewn 3 mis"

Ym mhwynt 4 rhoi "yn gyhoeddus" ar ôl "ar gael"

Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt 5 "penderfynu bod y broses adolygu ei hun yn cael ei chynnal yn y dull mwyaf agored a thryloyw posibl"

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 30 Mawrth 2000

**NDM256**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

**2. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Yn yr ail bwynt dileër 'y gallai'r adolygiad' a gosoder 'bod yr adolygiad yn debygol o' yn ei le.

**3. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Yn y trydydd pwynt dileër 'cyn gynted ag y bo modd' a gosoder 'ar frys' yn ei le.

**4. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Ym mhwynt 4 ar ôl y gair 'penderfyniad' ychwaneger 'ar ddydd Mawrth 8$^{fed}$ Mai 2000'

**5. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Dileër 2,3 a 4 a gosoder y canlynol yn eu lle:

2. yn ei gwneud yn ofynnol bod y Prif Ysgrifennydd yn cyhoeddi'r ffigurau a arweiniodd at ei benderfyniad i ohirio'r prosiect dros dro.
3. yn penderfynu bod gohirio Adeilad Newydd y Cynulliad dros dro yn cael ei wneud yn barhaol.